Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Annwyl Bawb

E-FWLETIN 32 – 15 MEDI 2009

Dydd Llun nesaf yw Diwrnod Heddwch Rhyngwladol – diwrnod sy'n rhoi cyfle i unigolion, mudiadau a chenhedloedd i weithredu mewn ffyrdd heddychlon ymarferol i gyd ar yr un diwrnod. Ers ei sefydlu, y mae Diwrnod Heddwch wedi cofnodi ein siwrnai fel pobl ac fel planed tuag at heddwch. Bellach, mae miliynau o bobl o bob rhan o'r byd yn gweithredu mewn rhyw ffordd ar y diwrnod hwn a, bob blwyddyn, trefnir amryw o ddigwyddiadau i ddathlu a chofnodi'r diwrnod – o unigolion yn cynnau canhwyllau i gyngherddau a fforymau cyhoeddus.

Mae Morlan wedi cydweithio gyda'r grŵp Amnest Rhyngwladol lleol a Chôr Gobaith i drefnu dau ddigwyddiad i nodi'r diwrnod hwn. Cynhelir y digwyddiad cyntaf nos Iau yma am 7.30 pan fyddwn yn dangos y ffilm ddogfen ***THE DAY AFTER PEACE***.

Yn 1999, sefydlodd y gwneuthurwr ffilmiau Jeremy Gilley y mudiad *Peace One Day* ac aeth ati i geisio dod o hyd i fan cychwyn ar gyfer heddwch trwy sefydlu'r diwrnod di-drais a di-frwydro byd-eang cyntaf i'w gynnal yn flynyddol ar ddyddiad sefydlog. Ei nod oedd cofnodi ei ymdrechion i sefydlu'r diwrnod hwn ar ffilm am ei fod yn sylweddoli potensial ffilm i ddylanwadu'n bositif ar bobl a chynorthwyo i greu byd gwell. Mae pob siwrnai a deithiodd, pob gwlad a ymwelodd â hi a phob person a gyfarfu ar hyd y daith wedi eu cofnodi ar ei gamera. Deng mlynedd yn ddiweddarach, *The Day After Peace* yw ei stori ef – mae'n dystiolaeth deimladwy o bŵer unigolyn a dyfalbarhad yr ysbryd dynol. Mynediad trwy gyfraniad, elw at *Peace One Day*.

Am 7 o'r gloch ar Ddiwrnod Heddwch ei hun (nos Lun, 21 Medi), cynhelir **CYNGERDD GYDA CHÔR GOBAITH** yn y Morlan. Bydd stondinau amrywiol yno a bydd lluniaeth ysgafn ar werth. Mynediad trwy gyfraniad, elw at Gôr Gobaith a *Médecins Sans Frontières*.

Mae Diwrnod Heddwch yn berthnasol i bawb oherwydd, yn ogystal ag ymwneud â chreu heddwch rhwng cenhedloedd, mae hefyd yn ymwneud â lleihau trais yn ein cartrefi, ein cymunedau a'n hysgolion. Dewch i gefnogi felly.

Dyma'r digwyddiadau eraill sy'n cael eu cynnal yma dros yr wythnosau nesaf.

ARDDANGOSFA LEONÉ SPIES
14 Medi i 15 Hydref
Mae'r arddangosfa hon yn cynnwys darnau amrywiol, gan gynnwys peintiadau trawiadol o olygfeydd lleol. Gwerthwyd nifer ohonynt eisoes gyda chyfran o'r pris yn mynd tuag at Ffagl Gobaith. I gyd-fynd â'r arddangosfa, mae Ffagl Gobaith wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau amrywiol – gweler isod (manylion pellach: Dana Edwards 01970-617042):

GYRFA CHWILOD
7.00-9.00, nos Fawrth, 22 Medi
Hwyl i bawb dan ofal Hefin Jones.

PICNIS TEDI BERS A GWEITHDY TELYNAU
2.00-4.00, prynhawn Sadwrn, 3 Hydref
Picnic Tedi Bers a gweithdy telynau Dryw Bach gydag Eleri Turner.

TWMPATH DAWNS
8.00-10.00, nos Fercher, 7 Hydref
Twmpath dawns gydag Erwyd Howells.

ANERCHIAD GAN RICHARD HAMM AR HANES CAMLAS TREFALDWYN
2.30, dydd Iau, 17 Medi
Cyfarfod misol nesaf Prifysgol y Drydedd Oes ar gyfer y rheiny sydd wedi rhoi'r gorau i weithio.

NOSON GYDA CERI WYN JONES
7.30, nos Fercher, 14 Hydref
Arwel 'Rocet' Jones yn holi'r Prifardd Ceri Wyn Jones am y cerddi a enillodd iddo Goron Eisteddfod Meirion a'r Cyffiniau eleni. Noson wedi'i threfnu gan Bwyllgor Rhaglen Morlan yw hon; manylion pellach i ddilyn.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr